**Eitem Agenda 8** **26 Mawrth 2010** **WNC 07.10**

**DIWEDDARIAD IECHYD PLANHIGION - 2010**

**Pwrpas**

1. Mae'r papur hwn yn cyflwyno'r diweddariad blynyddol ar faterion Iechyd Planhigion sy'n berthnasol i Gymru.

**Bwrdd Rhaglen Bioddiogelwch Prydain Fawr**

2. Fel yr amlinellir yng Nghynllun Corfforaethol Comisiwn Coedwigaeth Prydain Fawr, mae Bwrdd Rhaglen Bioddiogelwch Prydain Fawr wedi ei sefydlu gyda chynrychiolwyr o Gomisiwn Coedwigaeth PF, y Gwledydd, Forest Research, a nifer o gymdeithasau diwydiant a gwirfoddol. Mae'r Bwrdd wedi cwrdd ddwywaith ac mae'n cynnwys Asiantaeth Ymchwil Bwyd a'r Amgylchedd (Fera), Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth Cynulliad Cymru.

3. Bydd y Bwrdd yn goruchwylio cyflawniad y Strategaeth Iechyd Planhigion. Bydd yn darparu trosolwg strategol er mwyn cyflawni ei amcan o:
*"Cynnal iechyd a bywiogrwydd ein coedwigoedd, coed a choetiroedd trwy strategaethau sy'n allgau, darganfod ac yn ymateb i, blâu a phathogenau coed sydd eisoes yn bresennol a rhai newydd, boed yn frodorol neu o dras estron."*

4. Bydd yn ystyried pob agwedd ar iechyd coed yn yr amgylchedd trefol a gwledig. Ni fydd yn ystyried materion iechyd coed sy'n effeithio ar goed ffrwythau neu rywogaethau addurniadol egsotig, gan nad yw'r rhain wedi eu cynnwys yng nghylch gorchwyl y Comisiwn Coedwigaeth. Rydym wedi nodi'n benodol y diffyg sylw i faterion iechyd coed trefol yn genedlaethol a byddwn yn llunio cynigion ar gyfer adnoddau ychwanegol i ymestyn y cylch gorchwyl i gynnwys iechyd coed trefol.

5. Hefyd bydd yn datblygu Cynllun Strategol Iechyd Planhigion i gyflawni'r strategaeth. Bydd hwn yn ystyried cyflwyno protocolau bioddiogelwch ffurfiol:

    - i'w defnyddio gan unrhyw un sy'n mynd i mewn i goetir yn rhinwedd ei swydd;
    - ac i ddarparu arweiniad i'w ddilyn o'r bonyn i'r felin gyda'r nod o atal lledu plâu a chlefydau yn ddamweiniol.

6. Bydd y Bwrdd yn adrodd wrth Fwrdd Gweithredol Comisiwn Coedwigaeth PF trwy'r Pennaeth Cefnogaeth Corfforaethol a Choedwigaeth, a fydd yn briffio Comisiynwyr a Gweinidogion fel y bo'n berthnasol. Y briffiad nesaf sydd wedi ei gynllunio fydd i'r Bwrdd gyflwyno'r Cynllun Strategol Iechyd Planhigion newydd, efallai ym mis Medi 2010.

**Phytophthora ramorum**

7. Mae'r cadarnhad bod yr haint mewn llarwydd Siapan yn Ne-Orllewin Lloegr yn fater sy'n dal i beri cryn bryder. Mae'r haint wedi'i gadarnhau ar 11 o safleoedd ar ôl arolygon diweddar yng Nghernyw, Dyfnaint a Gwlad yr Haf. Mae'r gwaith o gwympo iechydol wedi dechrau gyda'r nod o gwympo cynifer â phosibl o goed cyn iddynt ddeilio. Bydd hyn yn golygu bod y llarwydd yn cynhyrchu llai o frechlyn. Ar hyn o bryd, ni chanateir symud coed oddi ar y safleoedd. Rydym yn ymchwilio i system o gymeradwyo melinau a thrwyddedu symud gyda rheolaethau bioddiogelwch cysylltiedig, yn debyg i'r rhai a ddefnyddir i atal ymlediad y *Chwilen Rhisgl Sbriws Fawr.*

8. Yng Nghymru rydym bron â chwblhau arolwg o larwydd sydd â phrysgwydd Rhododendron ponticum ar ystâd goetir y Llywodraeth y Cynulliad. Hyd yn hyn mae'r canlyniadau'n galonogol oherwydd ni chafwyd hyd i'r un achos newydd. Ar ôl i'r coed ddeilio ddiwedd Mai 2010 rydym yn bwriadu cynnal arolwg mwy trylwyr o larwydd gydag arolygwyr Forest Research yn targedu'r ardaloedd mwyaf tebygol yn Ne Cymru. Yn olaf, rydym wedi cyflogi myfyriwr MSc yn ddiweddar i asesu'r potensial ar gyfer defnyddio arwyddnod sbectral llarwydd o luniau o'r awyr i ddarganfod clefydau.

**Dirywiad Difrifol Coed Derw**

9. Mae Dirywiad Difrifol Coed Derw (AOD) yn dal i ddenu cryn sylw ac mae nifer o fuddiannau coedwig preifat wedi mynegi pryder am y cynnydd yn nifer yr adroddiadau o'r ffenomen hon. Mae'r Comisiwn Coedwigaeth wedi neilltuo rhagor o arian ar gyfer ymchwil i AOD ac yn ddiweddar mae Forest Research wedi adnabod pum math o facteria y mae'n ymddangos eu bod yn cyfrannu at y clefyd. Mae hyn yn cynnwys o leiaf un genws sy'n newydd i wyddoniaeth ac o leiaf ddwy rywogaeth newydd mewn genera adnabyddus. Hyd yn hyn, mae'n ymddangos bod rhyw 55 o safleoedd wedi'u heintio, y rhan fwyaf yng Nghanolbarth Lloegr, a bod oddeutu 2,750 o goed wedi'u heintio. Ychydig yn unig o heintiadau sydd wedi'u cadarnhau yng Nghymru.

10. Mae Nodyn Ymarfer sydd ar fin cael ei gyhoeddi yn rhoi gwybodaeth am AOD a chyngor i berchnogion coedwigoedd â choed sydd wedi'u heintio neu sy'n dangos symptomau.

11. Mae cais am arian hefyd yn cael ei baratoi i'w gyflwyno i Defra. Mae hyn yn debygol o ddangos bod angen rhyw £10 miliwn dros gyfnod o bum mlynedd er mwyn ein galluogi i fynd i'r afael yn iawn ag AOD.

**Chwilen Hirgorn Sitrws**

12. Bydd y tyllbryf hirgorn hwn (gweler Atodiad 1) yn ymosod ar amrywiaeth eang o goed collddail, yn enwedig rhywogaethau *Acer*. Ar hyn o bryd mae yna achosion yn yr

Eidal a'r Iseldiroedd, y ddau'n gysylltiedig ag *Acer palmatum* a fewnforiwyd o Tsieina. Er gwaethaf mesurau brys a gyflwynwyd gan yr UE yn 2008, ceir adroddiadau rheolaidd am ryngipiadau. Mae staff Forest Research yn parhau i gynnal arolygon o fannau lle cafodd ei gyflwyno yn y gorffennol yn ardal y Fforest Newydd ac ar draws de Lloegr. Arweiniodd ail ddigwyddiad, pan gynigiodd papur newydd cenedlaethol goed *Acer* am ddim i ddarllenwyr, at gipio a dinistrio 300 o goed a oedd wedi'u heintio. Mae'r enghraifft hon yn amlygu llwybr newydd, a allai arwain at gyflwyno'r pla o'r newydd am fod y larfau'n cymryd hyd at dair blynedd i aeddfedu.

**Goblygiadau Ariannol**

13. Nid oes goblygiadau ariannol i'r diweddariadau:

**Risgiau**

14.

| Elfen Risg | Math o Risg: Enw Da Econ / Amg / Cymd | Sgôr Risg | Rheolaethau |
|---|---|---|---|
| Achosion difrifol yn arwain at golli llawer o goed | Enw da / Economaidd / Amgylcheddol | **Canolig** | Cefnogi datblygiad Strategaeth a Chynllun Bioddiogelwch Comisiwn Coedwigaeth PF |
| Diffyg cyfathrebu ar faterion bioddiogelwch | Enw Da / Economaidd | **Canolig** | Cysylltu â datblygiad y Cynllun Cyfathrebu ar Fioddiogelwch ac unrhyw achosion penodol |
| Niwed i'r berthynas â'r Adran Materion Gwledig/Fera | Enw Da | **Isel** | Cynnal cyfathrebu a chysylltu ar bob lefel. Cytuno a chyflawni camau cydweithredol. |
| Costau cynyddol o gynnal ymagwedd gydweithredol oherwydd cynnydd yn nifer y digwyddiadau bioddiogelwch | Enw Da / Economaidd | **Canolig** | Cytuno ar faterion bioddiogelwch cyffredinol gyda phartneriaid. Defnyddio'r offer cynllunio busnes cywir i reoli costau |

**Cyfathrebu**

15. Caiff Cynlluniau Cyfathrebu eu datblygu gan Fwrdd Bioddiogelwch Comisiwn Coedwigaeth PF a Bwrdd Prosiect Phytophthora Fera i drosglwyddo'r negesau allweddol. Rydym yn ymwneud â datblygu'r cynlluniau hyn er mwyn gwneud yn siŵr fod y cyfathrebu'n briodol ar gyfer y gynulleidfa yng Nghymru.

16. Mae Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn bwriadu cyflwyno nodyn i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig i roi diweddariad iddi ynglŷn â lledaeniad Phytophthora ramorum mewn llarwydd, unwaith y bydd canlyniadau arolwg y gaeaf yn hysbys.

**Argymhellion**

17. Gofynnir i'r Pwyllgor Cenedlaethol nodi cynnwys y papur hwn a cheisio esboniad ynglŷn ag unrhyw rai o'r materion y tynnwyd ei sylw atynt.

**Roddie Burgess** **Richard Siddons**
**Pennaeth Iechyd Planhigion Comisiwn Coedwigaeth PF**
**Pennaeth Grantiau a Rheoliadau Comisiwn Coedwigaeth Cymru**
**Mawrth 2010**

**Atodiad 1 Chwilen Hirgorn Sitrws**